

### Rydym yn dathlu:

Yn ystod 2025–2026, dathlwyd llwyddiant yr ysgol wrth ennill Gwobr Blatinwm Eco-Sgolion a Gwobr Aur y Siarter Iaith. Enwyd Catrin Williams hefyd yn gyd-enillydd y categori Arweinydd Siarter Iaith Gorau mewn Ysgol Gynradd yng Ngwobrau Tlws Tawe. Cafodd ein disgyblion llwyddiant arbennig yn yr Eisteddfod. Daeth y parti recordwyr yn ail yn genedlaethol, enillodd Cadi o Flwyddyn 4 y wobwr gyntaf am ei gwaith celf dau ddimensiwn, a daeth dau grŵp o Flwyddyn 6 yn ail ac yn drydydd am eu gwaith digidol. Derbyniodd gwaith Adran yr Afon hefyd Wobr Dathlu Treftadaeth.

Roeddem yr un mor falch bod Maggie Bassett wedi cyrraedd rownd derfynol Gwobr Aelod Staff Bugeiliol y Flwyddyn, tra bod aelodau o staff wedi cyrraedd y rhestr fer yng nghystadleuaeth Carol yr Ŵyl. Cyrhaeddodd timau pêl-droed y bechgyn a'r merched rowndiau cynderfynol twrnameintiau'r Urdd. Mae'r Gymraeg yn parhau wrth galon bywyd yr ysgol. Mae disgyblion yn ymfalchïo mewn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol ac yn hyderus, y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Mae disgyblion yn dangos agweddau rhagorol at ddysgu ac yn ymddwyn yn dda iawn.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn cymorth ychwanegol.

### Trosolwg o ganfyddiadau hunanwerthuso'r ysgol 2025–2026

- Mae gwaith yr ysgol ar ddysgu dwfn wedi cryfhau'r broses o gynllunio'r cwricwlwm ac wedi gwella dealltwriaeth disgyblion o'r cysyniadau craidd sy'n sail i'w dysgu.
- Mae'r defnydd o storïau dysgu, byrddau stori, cwestiynau mawr a geirfa a ddewiswyd yn ofalus yn helpu disgyblion i ddeall sut mae eu gwybodaeth a'u medrau'n datblygu dros amser.
- Mae llawer o ddisgyblion bellach yn gallu trafod eu dysgu'n aeddfed a gwneud cysylltiadau ystyrlon rhwng gwahanol agweddau ar eu gwaith.
- Mae'r ysgol wedi cryfhau'r addysgu mewn mathemateg drwy roi mwy o bwyslais ar yr hyfedreddau mathemategol, dealltwriaeth gysyniadol, rhesymu a datrys problemau.
- Mae llawer o ddisgyblion yn dangos mwy o hyder wrth egluro eu dulliau a'u rhesymu mathemategol. Mae canlyniadau'r asesiadau personol hefyd yn dangos bod cyfran sylweddol o ddisgyblion yn perfformio'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol mewn rhifedd gweithdrefnol a rhesymu mathemategol.
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu ymarferol a Dysgu Sylfaen wedi datblygu'n gryf. Mae disgyblion yn elwa ar brofiadau cyfoethocach, heriau pwrpasol, chwarae strwythuredig a phenagored, a mwy o gyfleoedd i ddysgu yn yr awyr agored.
- Mae strategaethau asesu megis marcio byw, hunanasesu, asesu cyfoedion, meini prawf llwyddiant a chyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth wedi'u sefydlu'n dda ar draws yr ysgol.
- Mae llawer o ddisgyblion yn gallu adnabod eu cryfderau, egluro'r cynnydd y maent wedi'i wneud a defnyddio adborth yn bwrpasol i wella eu gwaith.
- Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth ddefnyddio OneNote i gasglu tystiolaeth a monitro cynnydd disgyblion. Mae hyn yn darparu sail gadarnach ar gyfer olrhain cynnydd dros amser.
- Mae ymholi proffesiynol wedi cryfhau hyder a medrau arweinwyr canol. Mae eu gwaith wedi arwain at welliannau mewn meysydd sy'n cynnwys Dysgu Sylfaen, Iechyd a Lles, addysg cydberthynas, y Celfyddydau Mynegiannol a'r Dyniaethau.
- Mae'r ysgol wedi llwyddo i ddatblygu diwylliant cryfach o ymchwil broffesiynol, myfyrio, gwerthuso a gwelliant parhaus.

### Mae angen i ni weithio ar:

Cryfhau medrau darllen, ysgrifennu, siarad a gwrando, gan hyrwyddo mwynhad gydol oes o ddarllen.

Mireinio cynllunio'r cwricwlwm a dilyniant, yn enwedig mewn Mathemateg, Gwyddoniaeth a Thechnoleg, ac addysg cydberthynas.

Cynyddu cyfleoedd pwrpasol ar gyfer dysgu ymarferol ac awyr agored.

Cryfhau'r gefnogaeth i ddisgyblion bregus a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, lles neu gyfathrebu drwy Y Gilfach Glyd.

## Cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r

### llynedd

#### Cynllunio strategol ar gyfer dysgu dwfn | Cynnydd: Cryf

Mae cynllunio'r cwricwlwm yn fwy cydlynus a phwrpasol, gan alluogi disgyblion i wneud cysylltiadau ystyrlon a datblygu mwy o annibyniaeth.

#### Arweinyddiaeth ganol | Cynnydd: Cryf iawn

Mae arweinwyr canol wedi cryfhau eu medrau arwain strategol ac wedi cyfrannu'n effeithiol at welliannau mewn addysgu, dysgu a darpariaeth y cwricwlwm.

#### Dysgu ymarferol a Dysgu Sylfaen | Cynnydd: Cryf

Mae profiadau ymarferol, chwarae ac awyr agored cyfoethocach wedi gwella ymgysylltiad ac annibyniaeth disgyblion, ynghyd â'u gallu i gymhwyso medrau allweddol.

#### Asesu a chynnydd | Cynnydd: Cryf

Mae prosesau asesu ac adborth gwell yn helpu disgyblion i ddeall eu cynnydd, ymateb i adborth ac adnabod eu camau nesaf.



## Ein blaenoriaethau ar gyfer

2026-2027

#### Blaenoriaeth 1: Llythrennedd a darllen

Dyfnhau a chryfhau medrau darllen a medrau gwranddo yn cynnwys ar draws pob Maes Dysgu a Phrofiad.

#### Blaenoriaeth 2: Cynllunio ar gyfer dysgu dwfn

Mireinio cynllunio'r cwricwlwm er mwyn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd clir a chyson yn eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth.

#### Blaenoriaeth 3: Dysgu ymarferol, pwrpasol ac awyr agored

Datblygu profiadau dysgu ymarferol, pwrpasol ac awyr agored sy'n dyfnhau dealltwriaeth disgyblion ac yn cefnogi cynnydd ar draws y cwricwlwm.

#### Blaenoriaeth 4: Cynhwysiant, lles a chymorth wedi'i dargedu

Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, disgyblion bregus a'r rhai sydd angen cymorth ychwanegol gyda'u lles neu eu cyfathrebu.



## Sut y byddwn yn cyflawni ein hamcanion

**Dysgu proffesiynol o ansawdd uchel**- Bydd staff yn derbyn hyfforddiant a chymorth mewn darllen, ffoneg, medrau cyn-ddarllen, meddwl a rhesymu mathemategol, byrddau stori, cynllunio'r cwricwlwm, dysgu yn yr awyr agored, Dysgu Sylfaen ac arferion cynhwysol.

**Cydweithio ac ymholi proffesiynol** -Bydd staff ac arweinwyr yn cydweithio ag ysgolion partner, cydweithwyr y clwstwr ac arbenigwyr allanol i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin, gwerthuso arferion a nodi dulliau effeithiol.

**Cynllunio cwricwlwm cyson** -Bydd byrddau stori ac unedau dysgu yn cael eu mireinio fel bod cysyniadau, gwybodaeth, medrau a geirfa allweddol yn cael eu nodi'n glir ac yn adeiladu'n systematig ar ddysgu blaenorol.

**Asesu pwrpasol** -Bydd staff yn defnyddio gwybodaeth asesu i gynllunio'r camau nesaf, addasu'r ddarpariaeth a sicrhau lefel briodol o her i ddisgyblion â gwahanol alluoedd ac anghenion.

**Llais y disgybl** -Bydd disgyblion yn cyfrannu at gynllunio a gwerthuso eu dysgu, dewis deunyddiau darllen ac adolygu ansawdd y profiadau a ddarperir.

**Partneriaeth â theuluoedd a'r gymuned** -Bydd yr ysgol yn cydweithio â rhieni, llyfrgelloedd, awduron, sefydliadau lleol a'r gymuned ehangach i gefnogi darllen, rhifedd, lles a phrofiadau dysgu dilys.

**Cymorth cynhwysol wedi'i dargedu** -Bydd staff yn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar ac yn darparu ymyriadau amserol, gan gynnwys cymorth drwy **Y Gilfach Glyd**, darpariaeth yn y dosbarth ac ymgysylltu â theuluoedd.

**Monitro a gwerthuso rheolaidd** -Bydd cynnydd yn cael ei werthuso drwy deithiau dysgu, arsylwadau gwersi, craffu ar waith disgyblion a chynlluniau, gwybodaeth asesu, cyfarfodydd cynnydd,

